



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cynigion Taliadau ar gyfer 2018-19

- Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cynnwys

- | | |
|--|------------------|
| 1. Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| 2. Ein cynigion | Tudalen 3 |
| 3. Crynodeb o'r Ymgynghoriad ac Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru | Tudalen 5 |
| 4. Newidiadau i'r Cynllun Terfynol | Tudalen 9 |

Atodiad 1 - Cynigion yr Ymgynghoriad Taliadau

Atodiad 2 - Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd

1. Cyflwyniad

Er mwyn datblygu cynllun taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-19, rydym yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid ac yn ystyried yr ymatebion cyn terfynu ein cynigion.

Cynhaliom ymgynghoriad 12 wythnos a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2018. Cyn yr ymgynghoriad, gwnaethom gwrdd â'r Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau¹ i drafod y cynigion a'u mireinio ar sail adborth gan ein prif rhanddeiliaid a'n grwpiau cynrychioladol. Buom hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid sefydledig a gwnaethom anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at ein cwsmeriaid a phartïon eraill â budd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, gwnaethom roi'r Dogfennau Ymgynghori ar ein gwefan.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 11 o ymatebion a defnyddiwyd y rhain, ynghyd ag adborth gan grwpiau rhanddeiliaid, i ddatblygu ein cynllun. Rydym yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan rhanddeiliaid ac rydym wedi ystyried eu safbwyntiau. Rydym wedi crynhoi'r elfennau allweddol a'n hymateb yn y papur hwn er mwyn helpu i esbonio ein cynigion.

2. Ein cynigion

Mae'r cynigion manwl fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1. Ceir crynodeb isod o'r newidiadau hynny:

1. Cyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig (MCPD)

Rydym yn bwriadu adennill cost trwyeddu unrhyw weithfeydd newydd o fewn cwrpas y Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig a ddaeth i rym ar 15 Rhagfyr 2015 a bydd yn berthnasol i weithfeydd newydd o 20 Rhagfyr 2018 ac unrhyw weithfeydd sydd eisoes yn bodoli o 2024 a 2029 ymlaen yn dibynnu ar eu maint, math o danwydd, oedran ac oriau gweithredu.

2. Ynni dŵr - Cyflwyno Band Uwch

Rydym yn cyflwyno band uwch ar gyfer cynlluniau ynni dŵr mawr dros 250kW er mwyn sicrhau bod costau'n cael eu hadennill yn llawn. Mae'r cynlluniau mwy yn tueddu i fod yn fwy cymhleth ac ar raddfa sy'n gofyn am fwy o fewnbwn technegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym yn bwriadu gosod taliad sylfaenol o £1500 ac amser adennill costau a deunyddiau lle yr eir y tu hwnt i hyn.

¹Mae'r Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau yn cynnwys aelodau o sefydliadau masnach a chynrychioladol amrywiol ein rhanddeiliaid.

Capasiti'r Cynllun (kW)	Ffi Ymgeisio Arfaethedig (£)
25kW neu lai	375
>25 hyd 50kW	750
>50 hyd 100kW	1,125
>100 hyd 250kW	1,500
>250 kW	1,500 yn ogystal â thaliad yn seiliedig ar amser

3. Gofynion cyfalaf newydd - Tâl Uned Safonol (SUC).

Rydym yn bwriadu cynnal y Tâl Uned Safonol ar y gyfradd bresennol ar gyfer 2018/19. Er hynny, byddwn yn parhau i adolygu'r costau buddsoddi a'r opsiynau codi tâl gyda Dŵr Cymru ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Gwnaethom ddweud ein bod yn adolygu sut yr ydym yn ariannu gwelliannau isadeiledd cronfeydd dŵr sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod asedau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae'r gost hon yn cael ei hadennill drwy'r Tâl Uned Safonol felly bydd gwelliannau cyfalaf dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf yn rhoi pwysau ar y tâl hwn.

4. Adennill Costau Digwyddiadau Llygredd (PICR)

Rydym yn cynnig cynyddu ein taliadau adennill costau digwyddiadau llygredd i £125 am bob awr yn unol â'n taliad safonol am bob awr. Y gyfradd am bob awr ar hyn o bryd yr ydym yn seilio ein costau adennill arni yw £84 ac mae wedi parhau ar y lefel hon ers blynyddoedd lawer tra bod ein costau cyffredinol wedi cynyddu.

5. Rheoleiddio Niwclear yng Nghymru

Gwnaethom gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru sy'n gweithredu safleoedd Niwclear yng Nghymru sy'n cael eu rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ein rhan ni. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgynghori ar wahân am eu ffioedd a thaliadau, ac maent wedi cyhoeddi eu cynllun taliadau ar eu [gwefan](#)

3. Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gellir gweld yr ymatebion llawn yn Atodiad 2.

Cyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig

Yn gyffredinol, derbyniwyd yr egwyddor o adennill costau ar gyfer rheoliadau'r Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig er yr heriwyd y gyfradd am bob awr. Daeth y prif ymatebion o'r sector amaethyddol, ac roeddent yn ymwneud â diffyg eglurder o ran graddfa'r effaith ar ffermwyr ac anghysondebau yn y taliadau arfaethedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Dadleuwyd y dylai'r sector Amaethyddiaeth gael ei esemptio o'r rheoliadau oherwydd y baich ychwanegol. P'un a yw hyn yn wir ai peidio cafodd cais ei wneud i'r gwaith o weithredu gael ei gefnogi gan reoleiddiwr sy'n meddu ar yr adnoddau i hyrwyddo, cyfathrebu a gweithredu'r cynllun.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn gweithio gyda Rheoleiddwyr eraill y DU i ddatblygu canllawiau technegol yr ydym yn gobeithio eu cyhoeddi erbyn gwanwyn 2018. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i'r holl weithfeydd hylosgi sydd â mewnbwn thermol ar gyfradd rhwng 1-50MW. Gall hyn fod yn berthnasol i weithgareddau amaethyddol megis sychu ŷd, cynhesu cartrefi da byw, garddwriaeth neu unedau llaethdy mawr ar gyfer cynhesu dŵr, ond mae sawl esemptiad wedi'u cynnwys yn y diwygiadau i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a ddisgrifir yn Erthygl 2(3) o'r Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig a allai fod yn berthnasol o dan rai amgylchiadau. Nid yw'r rheoliadau diwygio sy'n gweithredu'r Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi yn pennu eithriad ar gyfer sector penodol a chan fod yr offeryn statudol bellach wedi'i osod a'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, nid oes lle ar hyn o bryd i esemptiad o'r fath sy'n ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth heblaw'r eithriadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

Mae trefniadau trosiannol ar waith er mwyn gweithredu'r rheoliadau ar gyfer gweithfeydd sydd eisoes yn bodoli.

Gwnaethom seilio ein cynigion ar y wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny ac rydym yn bwriadu adolygu'r rhain yn flynyddol yn yr un modd â ffioedd a thaliadau eraill er mwyn sicrhau bod costau'n cael eu hadennill. Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill y DU i fod mor gyson â phosibl mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi ar draws ffiniau.

Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr eraill y DU o ran gweithredu'r diwygiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Ynni Dŵr - Band Uwch

Cawsom ymateb cymysg i'r cynnig o ran band uwch. Derbynnir yn gyffredinol y dylai'r ffioedd fod yn gymesur â'r cymhlethdod a'r amser a gymerir i asesu cynlluniau. Cawsom wrthwynebiad cryf, yn bennaf gan Gymdeithas Ynni Dŵr Prydain. Maent o'r farn bod y ffioedd dim ond wedi cynyddu'n ddiweddar ar gyfer yr haen uwch felly nid yw codiadau pellach yn briodol. Maent yn gweld risg ychwanegol o sgysiau hirfaith ar draul yr ymgeisydd, sy'n anghymhelliad. Mae rhywfaint o anfonlonrwydd yn y sector am lefel y gwasanaeth, a gall y penderfyniadau a wneir a'r costau penagored ei gwneud hi'n anodd amcangyfrif costau'r cynllun ar gyfer ymgeiswyr. Awgrymir y gellir gwneud arbedion drwy ymgysylltu â materion anodd.

Gofynnodd NFU Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymdrin â rhwystrau i weithrediadau adnewyddadwy ar raddfa fferm gan mai ynni adnewyddadwy yw un o brif flaenoriaethau Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynigiwyd y band uwch er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno cais am gynlluniau mwy cymhleth yn talu swm sy'n fwy priodol ar gyfer y cynllun maent yn ei gynnig a bod cynlluniau symlach llai yn talu llai. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu canllawiau i helpu cwsmeriaid i ddeall lle mae cynlluniau yn debygol o fynd yn fwy cymhleth.

Roedd y cyfraddau hanesyddol yn talu am faint dibwys o'n costau ar gyfer penderfynu ar drwydded Adnoddau Dŵr. Cafodd y costau penderfynu ar geisiadau am drwyddedau ynni dŵr eu talu bron yn gyfan gwbl drwy draws-gymhorthdal gan Dalwyr Taliadau Trwydded lle mae ynni dŵr sy'n llai na 5MW wedi'i esemptio ar hyn o bryd o'r ffi gynhaliath flynyddol. Cyflwynwyd system haenog o daliadau ar gyfer ceisiadau ynni dŵr a oedd yn symud tuag at adennill costau o'r ymgeisydd a thraws-gymhorthdal gostyngol tair blynedd yn ôl. Nid oedd y ffi o £1500 am gynlluniau Pŵer Trydan Dŵr gyda chapasiti o >100 kW wedi'i gosod ar lefel adennill costau llawn ond ar ben isaf y costau penderfynu rhagweledig. Roedd y costau hyn yn seiliedig hefyd ar gyfradd am bob awr a oedd yn llai na'r £125 presennol am bob awr.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd prosesau effeithlon wrth benderfynu ar drwyddedau, ac rydym yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd uchel. Mae hyn yn rhan o broses o wella'n barhaus a byddwn yn gwneud mwy yn y maes hwn.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r ffioedd ymgeisio ar gyfer haenau presennol h.y. 100 kW a llai sef y rhan fwyaf o geisiadau ac amrywiaethau ac a fydd yn parhau i gael eu cefnogi gan incwm Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr. Bwriad yr haen uwch yw adennill ein costau'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynlluniau ynni dŵr mawr. Mae'r gyfradd sylfaenol o £1500 ar gyfer yr haen newydd yn cynnwys y costau penderfynu ar drwyddedau sylfaenol nad ydynt yn bodloni'r costau adennill yn llawn hyd yma ac sy'n parhau i gael eu cefnogi gan incwm ehangach y Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr.

Rydym yn cydnabod y gall ffi heb ei chapio beri ansicrwydd a risg i ymgeisydd ac felly bydd angen cynllunio a rheoli'r broses i roi eglurder i'r ymgeisydd am y costau tebygol. Gellid cyflawni hyn drwy ddatblygu amcangyfrifon ar sail cynllun gwaith sy'n benodol i'r materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Gall y ffi amcangyfrifedig gael ei chytuno rhwng partion cyn i'r gwaith ddechrau.

O ran cynlluniau mwy sy'n fwy cymhleth, bydd yr amser a dreulir yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r cais ac wrth gynllunio'r gwaith mae ei angen i gwblhau'r broses benderfynu yn helpu i sicrhau bod y materion yn cael eu deall yn llawn gyda strategaeth glir o ran sut i ymdrin yn effeithlon â nhw. Bydd cytuno ar ffi amcangyfrifedig ar gyfer gwaith ychwanegol yn cynnwys darparu cynllun clir mewn perthynas â sut y bydd materion rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn derbyn sylw, gan alluogi proses benderfynu fwy effeithlon a rhoi eglurder i'r ymgeisydd.

Er nad ydym wedi gweld llawer o geisiadau cymhleth, gall y broses o benderfynu ar un cynllun cymhleth mawr olygu y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni cryn dipyn o waith, yn enwedig os yw'r cynnig wedi'i leoli o fewn safle dynodedig. Mae angen i ni ddarparu ar gyfer hyn yn y dyfodol er mwyn lleihau'r risg o gostau penderfynu uchel, heb eu hariannu.

Mae ein hardaloedd cadwraeth natur mwyaf gwerthfawr yn cael eu hamddiffyn o ganlyniad i statws safle dynodedig. Mae penderfynu ar gynigion ynni dŵr ar safleoedd dynodedig yn llawer mwy cymhleth gan fod y gofynion rheoleiddiol yn llawer uwch o'u cymharu â safleoedd eraill heb eu dynodi.

Er ein bod yn ceisio sicrhau bod ein prosesau mor effeithlon â phosib ac i wella ein canllawiau ynni dŵr sy'n cefnogi ynni adnewyddadwy, mae dyletswyddau statudol yn parhau arnom i amddiffyn yr amgylchedd a bydd rhai costau rheoleiddiol yn parhau. Mae'n ofynnol i ni geisio adennill costau ac felly bydd costau penderfynu ar drwyddedau yn cael eu trosglwyddo i'r ymgeisydd.

Gofynion cyfalaf newydd - Tâl Uned Safonol (SUC)

Gwnaethom rannu ein bwriad i gadw'r Tâl Uned Safonol presennol ac ni chafwyd unrhyw sylwadau arwyddocaol am hyn. Gwnaethom godi'r mater o fuddsoddi yn y dyfodol a sut y gellid cyflawni hyn. Cadarnhaodd Dŵr Cymru ei ymrwymiad i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni hyn dros y blynyddoedd i ddod (Cynllun Rheoli Asedau [Cyfnod 7] 2020-2027).

Cyfradd Cyfoeth Naturiol Cymru am bob awr

Roedd nifer o'r ymatebion yn herio'r ffaith bod y gyfradd am bob awr a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn achos Rheoleiddio Niwclear) yn sylweddol uwch nag arbenigwyr sector cyffelyb.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym wedi sefydlu ein cyfradd reoleiddio ar £125 am bob awr, yn seiliedig ar egwyddorion adennill costau'n llawn (sy'n adennill costau uniongyrchol, gwasanaethau galluogi, gorbennion a'r tâl ariannu). Wrth wneud hynny, ein nod yw safoni cyfraddau am bob awr ar draws drefniadau rheoleiddio a meysydd gwaith.

Mae'n bwysig cydnabod y gallai'r costau hyn amrywio rhwng rheoleiddwyr wrth i'n cylch gwaith, polisïau, a'n blaenoriaethau newid.

Er mwyn cymharu cyfradd am bob awr Cyfoeth Naturiol Cymru â rheoleiddwyr eraill yn gywir, mae'n bwysig ystyried yr holl ffioedd a thaliadau y gallent eu codi.

Adennill Costau Digwyddiadau Llygredd (PICR)

Mynegwyd pryderon gan amrywiaeth o sectorau ynghylch y cynnig i gynyddu'r gyfradd Adennill Costau Digwyddiadau Llygredd am bob awr. Y pwyntiau allweddol a godwyd yw:

1. Effaith ataliol - gwneud pobl yn llai awyddus i hunan-adrodd yn gynnar;
2. Diffyg eglurder am ddisgresiwn Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gymhwyso'r broses Adennill Costau Digwyddiadau Llygredd;
3. Cysondeb rhwng cyfraddau am bob awr Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Asiantaeth yr Amgylchedd, a Cyfoeth Naturiol Cymru;
4. Eglurder am ddefnydd cyngor arbenigol gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ymateb i ddigwyddiadau;
5. Bydd costau uwch yn golygu bod llai o adnoddau ar gael i fferm fuddsoddi er mwyn osgoi llygredd;
6. Canfyddiad mai cynhyrchu incwm yw'r taliad hwn;

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae ein cyfradd am bob awr wedi aros yn gyson ar £84/yr awr ers mis Ebrill 2010 ac mae o dan gostau adfer. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu cost adennill llawn ein staff sy'n mynychu, archwilio neu'n rheoli digwyddiad llygredd er mwyn atal niwed neu leihau effeithiau'r llygredd. Mae'n rhesymol ac yn gyson â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mai'r llygrydd sy'n talu'r gost am hyn, ac nad yw'n dod o bwrs y cyhoedd. Mae Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadw eu cyfradd Adennill Costau Digwyddiadau Llygredd ar yr un lefel ers peth amser ac mae eu cyfradd yn dibynnu ar sut maent yn cyfrif eu gorbenion a'u costau penodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau ynghylch faint o amser y byddwn yn codi tâl amdano wrth ystyried amgylchiadau penodol y digwyddiad. Mae er budd pawb i atal llygredd cyn iddo ddigwydd drwy fuddsoddi mewn isadeiledd, cynllunio a lliniaru. Lle mae camau wedi cael eu cymryd i atal llygredd neu pan fo hunan-adrodd yn gynnar yn digwydd mae'n fwy tebygol y bydd costau'n is gan fod yr ymyrraeth gynnar yn atal digwyddiadau rhag cael eu hestyn gan arwain at gostau clirio sylweddol. Mae hefyd yn llai tebygol y bydd camau gorfodi yn cael eu gweithredu pan fydd gweithrediadau cadarnhaol yn arwain at lai o effaith ar yr amgylchedd.

Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi tâl am ddigwyddiadau bydd anfoneb archwiliadwy glir yn nodi amser y swyddog, y deunyddiau, yr offer neu wasanaethau arbenigol eraill a ddefnyddiwyd. Fel arfer, yn ystod digwyddiad, rhoddir dewis i'r gweithredwr neu'r tiffeddiannwr gyflogi contractwyr yn uniongyrchol, ond lle nad yw

hynny'n hygyrch neu mae'n annigonol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymyrryd ac yn adennill ein costau am wneud hynny.

Rheoleiddio Niwclear yng Nghymru

Cydnabuwyd bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal rhywfaint o waith goruchwyllo ar safleoedd Niwclear ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mewn achosion fel hyn, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru lai o ddylanwad dros unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau craffu ar ran y diwydiant yng Nghymru.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod diwydiant yn cael ei reoleiddio'n deg ac yn gymesur yng Nghymru.

4. Newidiadau i'r Cynllun Terfynol

Yn dilyn y broses ymgynghori a'r adborth a gawsom ni wnaethom unrhyw newidiadau i'r cynigion y gwnaethom ymgynghori yn eu cylch. Rydym yn parhau i groesawu a gwerthfawrogi'r mewnbwn gan randdeiliaid ac rydym wedi ystyried y materion a godwyd yn llawn, ac wedi nodi ein hymatebion yn y ddogfen hon i esbonio pam yr ydym wedi gwneud y penderfyniad hwn.

Mae'r cynigion wedi cael eu hadolygu gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cyflwyno i'r Gweinidog i'w cymeradwyo, ac erbyn hyn cytunwyd arnynt.

Atodiad 1 Cynigion yr Ymgynghoriad Taliadau

Cyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig

Daeth y Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi Canolig (MCPD) i rym ar 15 Rhagfyr 2015 ac mae angen ei throsi i gyfraith y DU erbyn 19 Rhagfyr 2017. Mae'r Gyfarwyddeb yn ceisio gwella ansawdd aer drwy gyflwyno cyfyngiadau allyriadau ar lygryddion allweddol a thrwy ddod â'r holl weithfeydd hylosgi yn yr ystod mewnbwn 1-50MW o dan reolaeth reoleiddiol. Mae gwerthoedd y terfyn allyriadau yn gymwys o 20 Rhagfyr 2018 ar gyfer gweithfeydd newydd ac erbyn 2024 a 2029 ar gyfer gweithfeydd sydd eisoes yn bodoli, yn dibynnu ar eu maint, y math o danwydd, eu hoedran a'u horiau gweithredu. Ar hyn o bryd rydym yn rheoleiddio gweithfeydd hylosgi ar osodiadau sydd â mewnbwn thermol ar gyfradd gyfraneddol dros 50MWth a'r rheiny sy'n is na 50MWth, sy'n rhan o osodiadau Rhan A1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel Gweithrediadau Uniongyrchol Cysylltiedig. Awdurdodau Lleol sy'n rheoleiddio'r gweithfeydd 20-50MWth fel gosodiadau Rhan B y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu trosi gofynion y Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi drwy Reoliad (EPR2016) Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Yn ogystal, yng Nghymru a Lloegr, bydd darpariaethau pellach yn cael eu cynnwys ar gyfer "generaduron penodedig" y bydd angen trwyddedau arnynt hefyd o dan EPR2016. Mae'r generaduron penodol hyn yn weithfeydd hylosgi a ddefnyddir i gynhyrchu yn y Farchnad Gapasiti ac efallai y byddant yn gweithredu am gyfnod byr, ond yn creu llawer o lygredd (e.e. peiriannau diesel heb osteg). Cyflwynwyd y Farchnad Gapasiti gan y Llywodraeth a'i nod yw sicrhau bod digonedd o ffynonellau dibynadwy o drydan ar gael drwy gynnig taliadau i annog buddsoddi mewn capasiti newydd neu er mwyn cadw capasiti presennol ar agor. Rheolir contractau'r Farchnad Gapasiti hyn gan yr Adran Busnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac nid ydynt wedi'u datganoli.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hyd yma ei dull mwy ffafriol o ran y rheoleiddiwr [Cadarnhawyd Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr unig reoleiddiwr gan Lywodraeth Cymru]. Fodd bynnag, un o'r opsiynau a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ynghylch gweithfeydd hylosgi canolig a'r generaduron penodol oedd i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr unig reoleiddiwr yng Nghymru ar gyfer y gweithgareddau hyn. Cyn y digwyddiad hwnnw, a chan y bydd angen trwydded ar gyfer gweithfeydd hylosgi cyfrwng newydd a generaduron penodol o 20 Rhagfyr 2018, mae angen i ni gael trefniant codi tâl ar waith ar yr adeg honno petai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gadarnhau fel y rheoleiddiwr, felly mae angen cynnwys hyn yn yr ymgynghoriad ynghylch cynllun 2018/19.

Bydd darparwyr y DU yn cynnig arweiniad technegol manwl a diffiniadau i helpu gweithredwyr i ddeall maint a gofynion y rheoliadau. Rydym wedi cyflwyno'r tabl costau isod fel arwydd o'r mathau o drwyddedau i helpu i egluro ehangder posibl y gweithgareddau sy'n destun y rheoliadau hyn.

Nid yw'r gweithgaredd hwn yn dod o dan Adran 41 Deddf yr Amgylchedd 1995 ac felly ni fydd angen i'r Gweinidog ei gymeradwyo. Yn ogystal, roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru / Defra ynghylch trosi'r Gyfarwyddeb Gwaith Hylosgi a'r generaduron penodol yn cynnwys y bwriad i adfer costau yn yr ymgynghoriad.

Rydym yn bwriadu adennill costau trwyddedu unrhyw weithfeydd o fewn cwmpas drwy ffi gychwynol i dalu cost o drwyddedu a thaliad cynhaliaeth flynyddol i dalu costau gwirio cydymffurfiaeth. Rydym yn adolygu ein ffioedd a thaliadau yn flynyddol, yn ogystal â'n prosesau i sicrhau bod costau yn cael eu lleihau i'r eithaf.

Mae ein costau trwyddedu yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer yr oriau y byddai'n cymryd i benderfynu ar gais a phrofiad o drefnau tebyg.

Math o gontract	Nifer yr oriau	Ffi ymgeisio
Generaduron 'Penodedig' Newydd	78 (gyda'r Tîm Modelu ac Asesu Risg Ansawdd Aer)	£4056
	37 (heb y Tîm Modelu ac Asesu Risg Ansawdd Aer)	£1924
Gwaith Hylosgi pwrpasol	23	£1196
Gwaith Hylosgi risg isel	13	£676
Gwaith hylosgi ategol	3	£156
Gwaith hylosgi wrth gefn	2	£104

Sylwch: Efallai y bydd angen modelu risg ansawdd aer generaduron 'penodedig' pwrpasol (y Tîm Modelu ac Asesu Risg Ansawdd Aer) o ganlyniad i risg sy'n denu ffi uwch er mwyn adlewyrchu'r asesiad ychwanegol hwn.

Cydymffurfio

Rydym wedi seilio ein costau cydymffurfio ar yr atodlen gydymffurfio o fewn Asesiad Effaith Defra / Llywodraeth Cymru ac amcangyfrif o nifer yr oriau i gyflawni'r gwaith. Rydym yn ystyried yr opsiynau talu o ran y ffioedd cynhaliaeth a'r atodlen gydymffurfio gysylltiedig (fel yr amlinellir yn y tabl isod) ar gyfer trwyddedau risg isel, ategol, ac wrth gefn.

Math o drwydded	Atodlen gydymffurfio	Nifer yr oriau	Costau adnoddau	Cynhaliaeth flynyddol (wedi'i thaenu dros nifer o flynyddoedd yn yr atodlen gydymffurfio)

Generaduron 'Penodedig' newydd	1 archwiliad bob blwyddyn	7.4	£385	£385
Gwaith Hylosgi risg isel	1 gwiriad o bell* bob 2 flynedd	4	£208	£104
Gwaith hylosgi ategol	1 gwiriad o bell* bob 3 flynedd	2	£104	£34.67
Gwaith hylosgi wrth gefn	1 gwiriad o bell* bob 6 flynedd	2	£104	£17.33

* diffinnir gwiriad o bell fel ymarfer cydymffurfio wrth y ddesg i wirio data a dogfennaeth a gyflwynir gan y gweithredwr sy'n cwmpasu profi, gweithredu offer lleihau ac adrodd oriau gweithredu.

Taliadau ychwanegol ar gyfer cyngor ac arweiniad - Gwaith Hylosgi Canolig

Cynlluniwyd y dull trwyddedu ar gyfer Gweithfeydd Hylosgi Canolig i fod mor syml â phosibl, ac felly disgwylir i gyngor cyn gwneud cais fod yn isel iawn. Nid ydym yn cynnig cynnwys unrhyw amser cyn gwneud cais o fewn y ffioedd a thaliadau ar gyfer ceisiadau, a fydd yn helpu i gadw ffioedd ymgeisio mor isel â phosibl. Felly, bydd angen i unrhyw drafodaethau cyn gwneud cais gael eu hadfer ar wahân drwy ein cynllun cyngor dewisol.

Taliadau Cynlluniau Ynni Dŵr

Rydym wedi dweud y byddem yn adolygu ein taliadau ar gyfer ynni dŵr. Mae nifer y ceisiadau am gynlluniau ynni dŵr newydd wedi lleihau yn dilyn y gostyngiad mewn Tariffau Cyflenwi Trydan. Rydym wedi penderfynu cynnal y strwythur ffioedd presennol ar gyfer cynlluniau hyd 250 kW yn 2018-19.

Rydym wedi nodi adennill rhy ychydig o bosibl wrth benderfynu ar drwyddedau cynlluniau mawr o ganlyniad i maint a natur y cynigion, sy'n aml yn gymhleth. Rydym felly yn bwriadu cyflwyno band uwch ar gyfer cynlluniau ynni dŵr mawr dros 250kW i sicrhau bod costau'n cael eu hadennill yn llawn.

Rydym yn bwriadu gosod tâl sylfaenol o £1500 ac amser adennill costau a deunyddiau lle yr eir y tu hwnt i hyn. Mae'r gost flaenorol yn seiliedig ar ein profiad o gynlluniau trwyddedu ac rydym yn hyderus y bydd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o geisiadau sydd o ansawdd uchel, yn rhoi gwybodaeth, ac yn trafod risgiau'n llawn fel yr amlinellir yn ein canllawiau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad mewnol ag arbenigwyr technegol a fydd yn cael ei gynnal gan ein gwasanaeth trwyddedu. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod ein proses mor effeithlon â phosibl.

Byddai'r taliadau ychwanegol yn yr haen uwch hon yn fwy na thebyg yn berthnasol i gynlluniau cymhleth a lleoliadau sensitif. Gyda'r rhain yn aml bydd arnom angen ceisio rhagor o fewnbwn gan ein harbenigwyr technegol neu pan fo'r cais o ansawdd technegol cyfyngedig ac nad yw'n rhoi digon o dystiolaeth i alluogi penderfyniad syml.

Rydym yn bwriadu adennill ein costau gan ddefnyddio ein cyfradd safonol am bob awr o £125.

Mae'r tabl ffioedd haenog cyfredol wedi cael ei ddiwygio isod i gynnwys yr haen uwch ychwanegol.

Capasiti'r Cynllun (kW)	Ffi Ymgeisio Arfaethedig (£)
25kW neu lai	375
>25 hyd 50kW	750
>50 hyd 100kW	1,125
>100 hyd 250kW	1,500
>250 kW	1,500 yn ogystal â thaliad ar sail amser

Taliadau Tynnu Dŵr

Gofynion Cyfalaf Newydd

Rydym yn adolygu sut rydym yn ariannu gwelliannau seilwaith cronfeydd dŵr sydd eu hangen i sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal yn briodol. Rhagwelir y bydd gwelliannau cyfalaf dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cynyddu'n sylweddol. Mae Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr Adran 20 yn bodoli i ariannu gwaith cyfalaf gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gronfeydd.

Rydym yn adennill costau isadeiledd drwy'r Tâl Uned Safonol a godir ar gyfer tynnu dŵr. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Dŵr Cymru Welsh Water i edrych ar ffyrdd o ledaenu cost gwaith cyfalaf dros gyfnod hwy, gan leihau felly effaith y cylchredau o gynnydd a thoriadau dilynol, a fydd yn rhoi sicrwydd tymor hwy i dalwyr taliadau.

Rydym yn cynnig cadw'r Tâl Uned Safonol ar y gyfradd bresennol ar gyfer 2018/19. Er hynny, byddwn yn parhau i adolygu costau buddsoddi a'r opsiynau codi tâl gyda Dŵr Cymru Welsh Water ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Awdurdodiadau Newydd

Mae posibilrwydd y bydd hawliadau iawndal yn y dyfodol os bydd angen cwtdgi tyniadau dŵr presennol sydd wedi'u hesemptio pan fyddant yn dod o dan reolaeth trwyddedu. Ni fydd hyn yn effeithio ar Dâl Uned Gwella Amgylcheddol 2018/19, ond fe all wneud hynny mewn blynyddoedd dilynol.

Adennill Costau Ymateb i Ddigwyddiadau Llygredd

Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Mae'r gwaith hwn yn gosod baich ariannol ar ein hadnoddau, gan leihau ein gallu i gyflawni gwaith arall sy'n darparu ein nod o gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn unol ag egwyddor "y llygrwr sy'n talu",² mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i ni adennill ein costau lle bynnag bo'n bosibl gan y llygrwr, sy'n lleihau'r baich ar y trethdalwr. Mae'n bwysig ein bod yn adennill ein costau'n llawn yn unol â "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru". Y gyfradd am bob awr ar hyn o bryd yr ydym yn seilio ein costau adennill arni yw £84 ac mae wedi parhau ar y lefel hon ers blynyddoedd lawer (cyn 2010) tra bod ein costau cyffredinol wedi cynyddu. O ganlyniad i hyn, rydym yn cynnig cynyddu ein taliadau adennill costau digwyddiadau llygredd i £125 am bob awr yn unol â'n taliad safonol am bob awr.

Mae costau y gellir eu hadennill yn cynnwys gwaith, gweithrediadau neu ymchwiliadau i nodi'r unigolyn cyfrifol, ffynhonnell, natur ac effaith y llygredd. Mae hefyd yn cynnwys costau adennill a geir gan Cyfoeth Naturiol Cymru lle mae gofyn i ni symud neu waredu deunydd llygredig, unioni neu liniaru effaith llygredd, neu adfer dyfroedd i'w cyflwr yn syth cyn i'r llygredd ddigwydd. Mae hefyd yn cynnwys costau ychwanegol eraill fel cyngor arbenigol.

Rydym yn adennill ein costau o'r adeg y mae swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu'r digwyddiad i ddechrau hyd at yr adeg y mae'r ffynhonnell yn cael ei chadarnhau ac mae'r swyddog wedi dychwelyd i'w ganolfan/cartref.

Rydym yn annog y sawl sy'n llygru i adrodd digwyddiadau'n gynnar, gan fod hyn yn helpu i leihau effaith amgylcheddol a maint unrhyw lygredd trwy ddarparu cyngor a mesurau cyfyngu yn gynnar yn ogystal â lleihau amser ymchwilio. Gall hunan-adrodd yn gynnar helpu i leihau tebygolrwydd erlyn yn dilyn digwyddiad llygredd trwy leihau'r effaith amgylcheddol a thrwy ddangos agwedd gadarnhaol tuag at leihau'r effaith.

²Mae Adran 161ZC o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 yn amlinellu'r darpariaethau y mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru'r hawl i adennill ei gostau a gafwyd yn rhesymol wrth wneud gwaith, gweithrediadau neu ymchwiliadau o dan adran 161 o'r Ddeddf honno. Mae modd adennill y costau hyn oddi wrth yr unigolyn sy'n gyfrifol am lygredd dŵr neu lle bo'n debygol y bydd llygredd, er mwyn atal y llygredd hwnnw rhag digwydd.

Rydym yn cadw'r hawl i hepgor rhan neu'r cyfan o unrhyw gostau ymchwilio i lygredd ar gyfer y rheini sy'n hunan-adrodd digwyddiadau yn brydlon ac yn effeithiol i ni.

Cyn adennill unrhyw gostau, mae rheolwyr yn asesu nifer o ffactorau er mwyn sicrhau bod y costau y gellir eu hadennill yn adlewyrchu'n deg y camau gweithredu angenrheidiol. Er enghraifft, os bydd dau gyflogai allan ar waith arferol ac yn dargyfeirio i fynychu digwyddiad llygredd, yna byddem fel arfer yn codi costau adennill ar gyfer un aelod o staff oni bai bod natur y digwyddiad yn gofyn bod dau yn bresennol.

Atodiad 2 Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd

Daeth ein hymgyngoriad ar Ffioedd a Thaliadau i ben ar 16 Ionawr 2018. Roedd yr ymgynghoriad yn fyw ar ein gwefan am fwy na 12 wythnos. Cyn ymgynghori'n gyhoeddus, cysylltodd Cyfoeth Naturiol Cymru â rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau.

Summary of Responders

The tables below give a summary of the responses received. Full text from the consultees is in the final table.

Organisation	Response Contact	Sector	Summary of response
Asked to remain Anonymous	Anon	Hydropower	Strongly opposed to the Hydropower upper tier.
Hafod Boeth Reservoir	Giles Keating	Reservoir	Welcomes the intention to keeping charges constant. Agrees Charges should reflect size and complexity of Hydropower schemes.
British Hydropower Association	Simon Hamlyn	Hydropower	Strongly opposed to the Hydropower upper tier.
CLA – Country Land and Business Association	Charles de Winton	Agriculture	Most members are in the lower tiers. Need transparency and auditability of time taken by NRW for the upper tier hourly charge.
Innogy Renewables UK Ltd	Louise Shaw	Renewable energy - Hydropower	Need consistency of application of guidance and NRW responses – customers must not carry cost of internal NRW disagreements. Agrees with principle of charging similar to client and consultant.
Stephen Rees	NRW	Financial	Concerns about NRW chasing outstanding income.
Dwr Cymru	Tony Harrington	Water and Wastewater	Welcomes commitment to keep general fees unchanged. Challenged the high and apparently inconsistent standard hourly rate of £125. Welcomed the function of Charge Payers Consultative Group.
Farmers Union Wales	Bernard Griffiths	Agriculture	Members accepted why NRW would cost recover for MCPD. Their members welcomed the lower tier remaining unchanged and accepted the need to cost recover for the upper tier but at a time when this renewable energy sector is struggling they had concerns this may not be helpful in promoting renewables. Strongly challenged the increase in PICR and see this as a barrier to early self-reporting.
National Farmers Union Cymru	Rachel Lewis-Davies	Agriculture	Stressed the important role Agriculture has in Wales contributing to Well-being goals

			<p>and the risk of imposing unfair costs and regulations putting farmers at a competitive disadvantage. Agreed with the principle of transparent charges and that these are kept as low as possible through efficiency whilst providing a high-quality service.</p> <p>Concerned about the lack of clarity around MCPD and how this may impact on farmers such as poultry units. Raised concern regarding inconsistency with EA charges. Unsure how the Hydropower upper tier will impact but insisted WG and NRW must do more to address barriers to enable renewables as this is a WG Natural Resources Policy priority.</p> <p>Challenged the PICR standard hourly rate increase. See this as a barrier to self-reporting, loss of money for farm investment, seek clarification on how these are proportionate and reassurance that this is not seen as an income generator.</p>
Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd	Barrie Cran	Energy	<p>Recognised the need to cost recover from those NRW regulate. Accept that the EA carry out this regulation on behalf of NRW and set the charge but raised concern about the hourly rate being high compared to Office of Nuclear Regulation. Urged NRW to engage EA to ensure value for money for the sector operating in Wales.</p>
Amenity Pool Owner	Ifan Owen	Business Owner	<p>Thinks NRW are making charges on his amenity pool which does not provide water for public use.</p>

Summary of Responses

